# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Prosiect Willow**

**Caer Las Cymru**
**Swyddfa'r Rheolwr, Aberfa House**
**740 Carmarthen Road**
**Abertawe**
**SA5 8JL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Prosiect Willow

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Goleudy Housing and Support Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Awst 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl a'u perthnasau yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt gan y gwasanaeth byw â chymorth hwn yn ystod cyfnod o bwysau cynyddol yn sgil effeithiau pandemig COVID-19. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cymryd rhan yn eu gofal a'u cymorth, gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo y cânt eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar eu llesiant. Mae'r staff yn cynnal cydberthnasau gwaith proffesiynol da â'r bobl a'u perthnasau.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom hysbysu darparwr y gwasanaeth nad oeddent wedi bodloni'r gofynion cyfreithiol o ran hyfforddiant craidd y staff a'r adroddiad ar Adolygiad o Ansawdd y Gofal. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y gofynion hyn wedi'u bodloni.

Mae gwybodaeth ar gael i'r staff er mwyn iddynt ddiwallu anghenion y bobl, ond byddai nodi gwybodaeth am hanes bywyd y bobl yn fwy manwl yn y cofnodion o fudd i'r gwasanaeth. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â throsglwyddo gwybodaeth o ffeiliau papur i gofnodion staff electronig.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt gydberthynas dda â'r staff gan ddweud, *“the staff are fabulous, this is the most independent I’ve been”* ac *“I get on well with staff, they always treat me with dignity and respect.”* Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael cynnig dewisiadau i wneud penderfyniadau bob dydd. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli, gan ddweud “*I feel valued and supported by management*” ac “*I’m given positive feedback by management and feel that management will offer support when needed.”* Dywedodd perthnasau wrthym fod y gwasanaeth yn “*provide security for my relative and they feel safe*” a “*there are enough staff on duty to safely support my relative*.”

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff atgyfeiriadau eu gwneud at amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, er enghraifft y tîm iechyd meddwl cymunedol a nyrsio cymunedol. Cadarnhawyd hyn gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Dywedodd un ohonynt wrthym, *“the service is good at providing a solid structure and support base around an individual that promotes independence and autonomy whilst ensuring that the individual can seek support and advice as required. They are also very good at liaising and making contact with myself as and when required.”*

Mae'r gweithwyr gofal yn cynnig cyfeillgarwch ac yn cefnogi'r bobl i wneud yr hyn y maent yn ei fwynhau. Caiff cydberthnasau'r bobl ag eraill eu hystyried yn ystod y broses o ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol. Mae'r rhain yn cydnabod y mewnbwn sydd gan deulu a ffrindiau'r bobl yn eu gofal a'u cymorth. Caiff barn cynrychiolwyr y bobl ei cheisio yn rheolaidd fel rhan o broses monitro ansawdd y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae gan y darparwr gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau diogelu, sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth bresennol a chanllawiau cenedlaethol. Dangosa'r staff ddealltwriaeth ddigonol o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu bod yn teimlo'n ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Mae polisïau, gweithdrefnau a'r defnydd o arferion hylan sy'n atal y risg o haint ar waith. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr a gadarnhaodd fod y gwasanaeth yn gofyn cwestiynau sgrinio i weithwyr proffesiynol yn rheolaidd. Mae digon o le yn swyddfa'r gwasanaeth ac mae'n lân ac yn daclus. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir a amlinellir ym mholisi COVID-19 y darparwr gwasanaeth. Mae gan y darparwr gwasanaeth gyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol.

Caiff y bobl ofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol mesuradwy. Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau, sy'n cynnwys Diogelu oedolion agored i niwed, Cwyno a Meddyginiaeth, a oedd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth gyfredol a'r canllawiau cenedlaethol. Roedd y cynlluniau personol a welsom yn briodol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am ddefnyddwyr y gwasanaeth, eu perthnasau a'u gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio dull o gynllunio canlyniadau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n rhoi gwybod i'r gofalwyr sut mae'r unigolyn yn hoffi cael ei gefnogi, ond byddai nodi gwybodaeth am hanes bywyd y bobl yn fwy manwl yn y cofnodion o fudd i'r gwasanaeth. Mae cynlluniau rheoli risg ar waith ac maent yn gyfredol. Dywedodd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wrthym fod y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth yn rhagorol.

Darperir cymorth wedi'i deilwra i'r bobl, sy'n cynnwys cymorth gyda meddyginiaeth, gan ddibynnu ar eu gofynion. Mae polisi a gweithdrefn meddyginiaeth priodol ar waith. Mae'r staff yn cwblhau archwiliadau yn rheolaidd er mwyn nodi patrymau a thueddiadau. Caiff y cofnodion rhoi meddyginiaeth eu harchwilio'n unigol gan uwch aelodau o staff. Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnal ei archwiliad ei hun o'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth, megis yr hyfforddiant a gwblhawyd a ph'un a gaiff meddyginiaeth yn ôl yr angen (PRN) ei roi yn unol â chyfarwyddiadau ai peidio.

## Yr Amgylchedd

Nid ydym yn archwilio thema Ansawdd yr Amgylchedd yn fanwl ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref. Fodd bynnag, gwelsom fod y swyddfa yn cynnwys offer addas er mwyn gweithredu a rheoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Nid oedd sylweddau sydd â'r gallu i achosi niwed wedi cael eu cadw'n ddiogel dan glo yn ystod yr ymweliad, ond cawsant eu cadw dan glo ar unwaith gan y rheolwr wedi iddo eu gweld. Gall y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r cyflogeion fod yn dawel eu meddwl bod eu gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau llywodraethu ar waith ac mae'n sicrhau y bodlonir y gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben. Fodd bynnag, byddai diweddaru'r Datganiad o Ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth i gynnwys manylion mewn perthynas â'r Unigolyn Cyfrifol newydd a gwybodaeth fwy amlwg yn yr adran trefniadau Monitro Ansawdd a Llywodraethu ynghylch yr adroddiad ar Adolygiad o Ansawdd y Gofal o fudd iddynt.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi sicrhau bod trefniadau addas ar waith i adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd. Roedd yr adroddiadau adolygu ansawdd gofal a welwyd gennym wedi eu cwblhau'n ddigon aml ac roeddent o'r ansawdd gofynnol. Roedd y cofnodion yn dangos bod yr ymweliadau personol â'r gwasanaeth gan yr unigolyn cyfrifol i fonitro perfformiad y gwasanaeth wedi cael eu cynnal yn ôl yr angen.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r trefniadau ariannol a'r trefniadau ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth. Rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd i ni fod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol er mwyn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol. Cadarnhaodd yr Unigolyn Cyfrifol, *“We produce quarterly management accounts which are subject to review by the Head of Finance and Executive Director (Corporate Services).”*

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau i'r broses o gefnogi a datblygu'r staff gyda'u hyfforddiant craidd. Yn ystod yr arolygiad hwn, roedd yr Unigolyn Cyfrifol yn gallu darparu digon o dystiolaeth bod y staff wedi cael yr hyfforddiant craidd gofynnol. Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu gwybodaeth a hyfforddiant i'r staff er mwyn galluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. Roedd darparwr y gwasanaeth yn gallu dangos yn glir bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rolau. Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal yn briodol. Roedd y sesiynau goruchwylio a'r sesiynau arfarnu a welsom yn cael eu cynnal yn ôl yr angen a'r amser gofynnol. Caiff y staff sesiynau arfarnu blynyddol fel sy'n ofynnol.

Mae'r sampl o rotas gwaith y staff a welsom yn dangos bod y gwasanaeth yn dibynnu ar staff asiantaeth. Trafodwyd hyn â'r Unigolyn Cyfrifol a chytuno bod angen adolygu'r defnydd o staff asiantaeth gan fod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u teuluoedd wedi gwneud sylwadau am yr effeithiau negyddol y mae cael cefnogaeth gan staff nad ydynt yn eu hadnabod cystal ag y mae'r staff parhaol yn eu hadnabod yn ei gael arnynt.

Mae angen gwneud gwelliannau i'r cofnodion staff. Roeddent yn cael eu trosglwyddo o gofnodion papur i system gofnodion electronig newydd. Ni fu'n bosibl i ni ddilysu'r wybodaeth a gyflwynwyd a byddwn yn edrych ar y cofnodion hyn yn ystod yr arolygiad

nesaf. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 35 | Roedd cofnodion y staff yn anghyflawn. Sicrhau bod cofnod llawn o'r staff sy'n gofalu am y bobl bob amser. | Newydd |
| 36 | Ni chafodd y staff yr hyfforddiant craidd sy'n briodol ar gyfer y gwaith y disgwylir iddynt ei gyflawni. | Cyflawnwyd |
| 80 | Ni chafodd yr Adroddiad ar yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal ei gwblhau'n ddigon aml nac i'r safon ofynnol. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/04/2023